



Cymwysterau CBAC ac Eduqas

2024-2025

GWYBODAETH I YMGEISWYR PREIFAT

CYNNWYS

Rhif y Dudalen

1.	Gwybodaeth Gyffredinol	3
2.	Manylebau sydd ar gael i Ymgeiswyr Preifat 2024/25	4
3.	Trefniadau Cofrestru	5
4.	Ffioedd	7
5.	Adnabod Ymgeiswyr Preifat	7
6.	Asesu Di-arholiad	7
7.	Trefniadau Mynediad Ac Ystyriaeth Arbennig	7
8.	Amserlenni Arholiadau	8
9.	Rheolau a Rheoliadau Arholiadau	8
10.	Canlyniadau a Thystysgrifau	9
11.	Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau	9
12.	Hysbysiad Preifatrwydd	10

1. GWYBODAETH GYFFREDINOL

Caiff ymgeiswyr preifat eu diffinio fel rhai sy'n dilyn cwrs astudio yn annibynnol ond sy'n sefyll arholiad neu asesiad yn un o ganolfannau arholiadau cymeradwy CBAC (ysgol, goleg neu ganolfan arall). Mae ymgeisydd preifat yn gyfrifol am wneud trefniadau priodol gyda chanolfan o'r fath er mwyn i'w gofrestrriad ar gyfer cymhwyster gael ei brosesu. (**Dim ond** o'r DU mae CBAC yn derbyn ymgeiswyr preifat).

Os yw ymgeiswyr preifat am gael eu cofrestru ar gyfer unrhyw gymhwyster, rhaid iddynt fodloni gofynion y cymhwyster hwnnw yn llawn. Mae manyleb (maes llafur) y pwnc yn cynnwys manylion gofynion pob pwnc, ac i'w gweld ar wefannau CBAC ac Eduqas (<https://www.cbac.co.uk>/<https://www.eduqas.co.uk/>). Yn ogystal ag arholiadau ysgrifenedig wedi'u hamserlennu, dylid nodi bod rhai pynciau yn cynnwys asesiad o **asesiadau di-arholiad*** a/neu gydrannau ymarferol. Mae rhagor o wybodaeth am asesiad y cydrannau hyn ar gael yn Adran 7.

Bydd angen i ymgeiswyr preifat ddod o hyd i ganolfan lle gallant gwblhau holl ofynion unrhyw gymhwyster maent am gael eu cofrestru ar ei gyfer. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr preifat yn gwneud y trefniadau hyn **cyn** dechrau ar eu hastudiaethau, oherwydd dim ond ar gyfer ymgeiswyr sydd â threfniant gyda chanolfan i ddarparu ar gyfer holl agweddau cymhwyster, gan gynnwys asesiad di-arholiad lle bo'n briodol, y gall CBAC dderbyn cofrestrriadau.

Manylebau Pwnc

Mae manyleb ar gael i bob pwnc. Mae cyhoeddiadau CBAC fel manylebau, cyn-bapurau ac adroddiadau arholwyr i'w gweld ar wefannau CBAC ac Eduqas (www.cbac.co.uk /<https://www.eduqas.co.uk/>).

TGAU Cymraeg Ail Iaith

Mae'r arholiadau hyn yn addas i'r ymgeiswyr hynny a ddysgodd Gymraeg yn bennaf drwy'r Rhaglen Astudio Ail Iaith yn yr ysgol gynradd a/neu uwchradd ac nad ydynt, wedyn, wedi dilyn y rhaglen astudio Cymraeg Iaith Gyntaf drwy gydol Cyfnod Allweddol 3.

TAG UG / Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith

Mae'r arholiadau hyn yn addas i'r ymgeiswyr hynny a ddilynodd y Rhaglen Astudio Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Nid oes gan yr ymgeiswyr sydd wedi sefyll TGAU Cymraeg/Llenyddiaeth Gymraeg (Iaith Gyntaf) yr hawl i sefyll TAG UG / Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith.

Bydd gofyn felly i'r holl ymgeiswyr ar gyfer yr arholiadau Cymraeg Ail Iaith uchod lenwi ffurflen ardystio Cymraeg Ail Iaith ar wahân er mwyn dilysu'r cofrestrriad.

Manylion Cyswllt

Os hoffech unrhyw wybodaeth am eich cofrestrriad neu unrhyw gymorth, cysylltwch â:

James Thomas

Uned

Gofrestrriadau

Ffôn: 029 2026 5120

E-bost: ymgeiswyrpreifat@cbac.co.uk

2. MANYLEBAU SYDD AR GAEL I YMGEISWYR PREIFAT 2024/25

Gan fod prosesau rheoleiddio cymwysterau yn wahanol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, rhaid i ymgeiswyr preifat fod yn wyliadwrus wrth ddewis manyleb briodol sy'n berthnasol i'w lleoliad.

Rhaid i ymgeiswyr sy'n cofrestru ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch trwy ganolfan yn Lloegr ddilyn manylebau CBAC Eduqas. Mae gwybodaeth ynghylch y cymwysterau sydd ar gael i'w gweld [yma](#).

Rhaid i ymgeiswyr sy'n cofrestru ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch trwy ganolfan wedi'i chynnal yng Nghymru ddilyn manylebau CBAC. Mae gwybodaeth ynghylch y cymwysterau sydd ar gael i'w gweld [yma](#).

Mae manylebau CBAC Eduqas TGAU, UG a Safon Uwch wedi'u dynodi sydd ar gael i'w haddysgu a'u cofrestru yng Nghymru i'w gweld [yma](#).

Os ydych chi'n ymgeisydd yng Ngogledd Iwerddon, dylech wirio argaeledd â Rheoliadau CCEA.

Mae mwyafrif ein Cymwysterau Galwedigaethol ar gael yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Gall ymgeiswyr preifat wirio argaeledd ein cymwysterau mewn awdurdodaethau gwahanol drwy gyfeirio at glawr blaen manyleb y cymhwyster. Os yw clawr y fanyleb yn nodi bod cymhwyster yn cael ei reoleiddio gan Ofqual, mae ar gael mewn canolfannau yn Lloegr; os yw'r fanyleb yn nodi bod y cymhwyster yn cael ei reoleiddio gan CCEA, mae ar gael mewn canolfannau yng Ngogledd Iwerddon; os yw manyleb yn nodi bod y cymhwyster wedi'i ddynodi gan Cymwysterau Cymru, mae ar gael mewn canolfannau yng Nghymru.

Dylai ymgeiswyr preifat gofio bod rhai manylebau yn cynnwys asesiad di-arholiad yn ogystal ag arholiadau sydd ar yr amserlen. Gydag asesiadau o'r fath mae angen athro/athrawes i oruchwylio, marcio a dilysu gwaith.

Mae'n bwysig, felly, bod ymgeiswyr preifat yn dod o hyd i ganolfan lle gallant sefyll asesiad di-arholiad. Mae'n bwysig i ymgeiswyr preifat wneud y trefniadau hyn cyn dechrau astudio.

***Nid yw manylebau sy'n cynnwys asesiad di-arholiad* ar gael i ymgeiswyr preifat oni bai eu bod yn gallu dod o hyd i ganolfan sy'n barod i oruchwylio, dilysu a marcio'r asesiad.**

Pan gyfeirir at asesiad di-arholiad, mae hyn hefyd yn cynnwys gwaith cwrs ac asesiadau dan reolaeth.

3. TREFNIADAU COFRESTRU

Rhaid i ymgeiswyr preifat wneud yr holl drefniadau arholiad yn uniongyrchol â'r ganolfan dan sylw, nid drwy CBAC. Y canolfannau unigol sydd i benderfynu a fydd cofrestriadau'n cael eu derbyn gan ymgeiswyr preifat ai peidio, a chyfrifoldeb pob ymgeisydd preifat yw dod o hyd i ganolfan sy'n barod i wneud y trefniadau angenrheidiol.

Nid yw CBAC yn cadw cofnodion o'r canolfannau hynny sy'n barod i ddarparu ar gyfer ymgeiswyr preifat. Os bydd ymgeisydd preifat yn cael trafferth dod o hyd i ganolfan o'r fath yn ei ardal, ein cyngor ni fyddai iddo gysylltu â'r Awdurdod Addysg Lleol am gyngor.

Mae'r CGC wedi rhoi [gwybodaeth ar eu gwefan](#) a fydd yn caniatáu i ymgeiswyr preifat ddod o hyd i ganolfan arholiad. Efallai y bydd canolfannau ychwanegol sy'n fodlon derbyn ymgeiswyr preifat nad ydynt wedi'u cynnwys ar restr y CGC.

Bydd ar y ganolfan angen gwybod y canlynol:

- Manylion personol fel enw llawn (gan y bydd yn ymddangos ar eich tystysgrif), dyddiad geni, cyfeiriad post a rhif ffôn. Bydd angen tystiolaeth adnabod hefyd (gweler Adran 6).
- Y codau pwnc ac opsiwn perthnasol (gan y bydd y manylion hyn yn penderfynu pa bapurau arholiad y bydd CBAC yn eu dosbarthu i'r ganolfan). Mae dewis o opsiynau ar gael yn y rhan fwyaf o bynciau, ac mae'n rhaid i chi roi gwybodaeth fanwl gywir i'r ganolfan am yr opsiynau penodol rydych chi am gael eich cofrestru ar eu cyfer. Mae gwybodaeth i'ch helpu i adnabod y pynciau a'r opsiynau i'w gweld gan ddefnyddio'r cysylltau canlynol
https://www.wjec.co.uk/home/administration/entries/#tab_0 /
https://www.edugas.co.uk/home/administration/entries/#tab_0
- Pa ddull a ddefnyddir gan ymgeiswyr preifat i gyflwyno gwaith cwrs/asesiad dan reolaeth/asesiad di-arholiad (gweler Adran 7).
- Dangosydd Ymgeisydd Unigryw (UCI). Rhif tri digid ar ddeg yw hwn a gyhoeddir gan ganolfannau ac a ddefnyddir i adnabod ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau unedol dros ddwy gyfres arholiadau neu ragor. Os dyrannwyd UCI i chi mewn canolfan arholiadau flaenorol, mae'n hollbwysig eich bod yn hysbysu'r ganolfan o hyn. Os na chyflenwir manylion UCI blaenorol, ni fydd unedau rydych chi wedi eu sefyll yn flaenorol ar gael i'w defnyddio wrth ddyfarnu gradd y cymhwyster.

Rhaid i ganolfannau gyflwyno cofrestriadau i CBAC erbyn y dyddiadau a roddir isod. Rhaid i ymgeiswyr preifat felly wneud trefniadau â'r ganolfan dan sylw ymhell o flaen y dyddiad hwn fel y gall y ganolfan brosesu'r cofrestriad mewn da bryd. Efallai y bydd y ganolfan yn barod i dderbyn cofrestriadau ar ôl y dyddiadau hyn ond codir taliadau hwyr.

Math o Gymhwyster	Dyddiadau Cau ar gyfer Cofrestru 2024/2025		
	Sesiwn yr Hydref	Sesiwn Ionawr	Sesiwn yr Haf
TAG			21 Chwefror
TGAU	4 Hydref	21 Hydref	21 Chwefror
Lefel 1 Tystysgrif mewn Lladin		21 Hydref	21 Chwefror
Lefel 2 mewn Mathemateg Ychwanegol			21 Chwefror
Tystysgrif Lefel Mynediad			21 Chwefror

Bagloriaeth Cymru – Tystysgrif Her Sgiliau		21 Tachwedd	21 Chwefror
Project			21 Mawrth
Llwybrau Mynediad		21 Hydref	18 Mawrth
Lefel 1/Lefel 2 Dyfarniadau Galwedigaethol/Dyfarniadau Technegol		21 Hydref	21 Chwefror
Lefel 3 Tystysgrifau/Diplomâu Cymhwysol			21 Chwefror
Llwybrau Ieithoedd		21 Hydref	21 Chwefror
Cymraeg Gwaith		21 Hydref	21 Chwefror
Lefel 3 Diploma Sylfaen Celf a Dylunio			21 Chwefror

Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Cymru)	<u>Sesiwn Tachwedd</u>	<u>Sesiwn Ionawr</u>	<u>Sesiwn Mehefin</u>	<u>Sesiwn Awst</u>
	Cyfnod cofrestru yn agor – canol Awst	Cyfnod cofrestru yn agor – 5 Hydref	Cyfnod cofrestru yn agor – 1 Rhagfyr	Cyfnod cofrestru yn agor – 25 Ebrill

(Mae'r tabl yn gywir ar 09/08/2024 – cadarnhewch derfynau amser cofrestru yn y llyfryn Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau 2024/25 CBAC/Eduqas yma)

Dylai'r ganolfan hysbysu ymgeiswyr preifat o ddyddiadau cyflwyno asesiadau di-arholiad a dyddiadau profion llafar/ymarferol lle bo'n briodol, ac anfon taflen wybodaeth 'Hysbysiad i Ymgeiswyr' a slip 'Datganiad o Gofrestrriad Ymgeisydd' atynt a fydd yn cadarnhau'r pynciau a gofrestrwyd ar eu cyfer a dyddiadau ac amseroedd yr arholiadau/asesiadau.

4. FFIOEDD

Os bydd canolfannau'n cytuno i wneud trefniadau cofrestru ar gyfer ymgeiswyr preifat, anfonebir y ganolfan gan CBAC am gost y cofrestriad. Bydd y ganolfan felly'n codi tâl cyfatebol ar yr ymgeisydd preifat **a gall, yn ogystal, godi ffioedd gweinyddu ychwanegol.**

Ni ellir trosglwyddo ffioedd cofrestru o un gyfres arholiadau i un arall.

Os bydd ymgeisydd preifat wedyn yn tynnu'n ôl o'r arholiad(au), y ganolfan sydd i benderfynu a ad-delir unrhyw ffioedd ai peidio.

Bydd dogfen ffioedd cofrestru CBAC/Eduqas ar gyfer 2024/25 ar gael yma

https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/cofrestriadau/#tab_0/

https://www.eduqas.co.uk/home/administration/entries/#tab_0/

5. ADNABOD YMGEISWYR PREIFAT

Pan fyddwch yn sefyll arholiadau fel ymgeisydd preifat, mae angen i'r ganolfan allu gwirio pwy ydych chi. Mae'n ofynnol felly i ymgeiswyr preifat ddangos tystiolaeth adnabod ffotograffig ym mhob arholiad.

6. ASESU DI-ARHOLIAD

Mae'n ofynnol i CBAC sicrhau bod ymgeiswyr preifat yn cadw at y rheoliadau ar gyfer paratoi a chyflwyno asesiad di-arholiad.

D.S. Nid yw cyrsiau sy'n cynnwys asesiad di-arholiad ar gael i ymgeiswyr preifat oni bai eu bod yn gallu dod o hyd i ganolfan sy'n barod i oruchwylio, dilysu a marcio'r asesiadau mewnol.

Mae'r ddogfen CGC 'Gwybodaeth i Ymgeiswyr' yn ymwneud ag Asesu Di-arholiad i'w gweld [yma](#). Dylai ymgeiswyr preifat fod yn ymwybodol hefyd bod angen i ganolfannau roi gwybod i bob ymgeisydd a gofrestrodd am waith a asesir gan y ganolfan am y marc(iau) a ddyfarnwyd, a'u cynghori y gallan nhw wneud cais am gopiâu o'r deunyddiau i'w cynorthwyo wrth ystyried p'un a ydyn nhw am wneud cais am adolygiad o farcio'r ganolfan

Os yw ymgeisydd preifat yn ystyried trosglwyddo canlyniad o asesiad di-arholiad, dylai drafod yr opsiwn gyda'r ganolfan sydd wedi ei gofrestru.

7. TREFNIADAU MYNEDIAD AC YSTYRIAETH ARBENNIG

Mae CBAC, ynghyd â Chyrff Dyfarnu eraill y CGC, yn caniatáu trefniadau mynediad, addasiadau rhesymol a/neu gymhwyso ystyriaeth arbennig i ymgeiswyr y mae trefniadau o'r fath yn addas ar eu cyfer. Gall hyn gynnwys caniatáu trefniadau mynediad i ymgeiswyr cymwys (ag anawsterau tymor hir), megis; amser ychwanegol, neu ddarllenydd mewn arholiadau, i gymhwyso ystyriaeth arbennig (gwella marciau/graddau ar ôl arholiad) ar gyfer yr ymgeiswyr hynny y penderfynir eu bod dan anfantais dros dro (oherwydd anawsterau emosiynol neu salwch) wrth sefyll yr arholiadau.

Rhaid i bob cais am drefniadau mynediad, addasiadau rhesymol, ac ystyriaeth arbennig gael ei wneud gan y ganolfan. Cynghorir ymgeiswyr preifat (ym mhob achos) i gysylltu â'r swyddog arholiadau yn y ganolfan sy'n eu cofrestru am gyngor.

8. AMSERLENNI ARHOLIADAU AC ASESIADAU DI-ARHOLIAD*

Mae amserlen arholiadau ac asesiadau CBAC ar gael ar adran 'myfyrwyr' ein gwefannau: https://www.wjec.co.uk/home/administration/key-dates-and-timetables/#tab_0
https://www.educas.co.uk/home/administration/key-dates-and-timetables/#tab_0

Cofiwch, caiff caniatâd ei roi mewn rhai canolfannau i newid fymryn ar yr amseroedd – mae'n **hanfodol** felly eich bod yn cael cadarnhad o'r trefniadau arholiad a'r amseroedd dechrau gan y ganolfan dan sylw.

Arholiadau ar yr Amserlen yn Gwrthdaro

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd preifat yw hysbysu'r ganolfan os oes unrhyw wrthdaro ar yr amserlen. Lle bo angen, bydd y ganolfan wedyn yn gwneud trefniadau amgen priodol. Dylid nodi, fodd bynnag, **na** chaniateir amrywio'r amserlen os yw arholiad yn gwrthdaro â phrofiad gwaith, cymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon (islaw lefel ryngwladol), priodasau neu wyliau ac **ni chaniateir o dan unrhyw amgylchiadau** i ymgeisydd sefyll arholiad ar ddiwrnod ar wahân i'r diwrnod y mae'r arholiad ar yr amserlen. Hefyd, rhaid cyflawni unrhyw asesiad di-arholiad yn ystod y cyfnod penodol a neilltuir ar ei gyfer.

9. Rheolau a Rheoliadau Arholiadau

Rhaid cynnal pob arholiad yn unol â rheoliadau'r CGC (gweler [cyswllt](#)). Dylai'r ganolfan ddarparu manylion unrhyw reolau a rheoliadau asesu ar gyfer ymgeiswyr preifat. Mae hyn yn cynnwys rhoi copi iddyn nhw o'r ddogfen CGC 'Hysbysiad i Ymgeiswyr', sy'n cynnwys rhestr lawn o reolau a rheoliadau'r CGC. Cysylltwch â'r Swyddog Arholiadau os nad ydych wedi derbyn cyfarwyddiadau gan y ganolfan ynghylch arholiadau ac asesiadau.

Gofynnir i chi fod yn ymwybodol bod mynd â ffonau symudol neu ddyfeisiau electronig eraill i mewn i'r ystafell arholi (p'un a yw'r ddyfais ymlaen neu wedi'i ddiffodd) yn torri'r rheolau ac y gall olygu y byddwch yn cael eich diarddel.

Yn yr ystafell arholi, ni chaiff ymgeiswyr fynediad at eitemau heblaw'r rhai a nodir yn y llyfryn gofynion arholiadau.

Cyhoeddir gwybodaeth ychwanegol gan CGC ar gyfer ymgeiswyr. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys gofynion yn ymwneud â chyfryngau cymdeithasol, profion ar-sgrin a hysbysiad preifatrwydd, ac i'w gweld [yma](#).

10. CANLYNIADAU A THYSTYSGRIFAU

Mae pob myfyriwr, yn cynnwys ymgeiswyr preifat, yn derbyn neu'n casglu eu canlyniadau a thystysgrifau o'r ganolfan lle safwyd yr arholiadau. Cysylltwch â'r Swyddog Arholiadau ynghylch y trefniadau sydd yn eu lle yn y ganolfan sy'n darparu ar eich cyfer.

Anfonir canlyniadau arholiadau i'r ganolfan ac **ni** fyddant ar gael yn uniongyrchol gan CBAC. Cynghorir ymgeiswyr preifat i wneud trefniadau â'r ganolfan naill ai i gasglu canlyniadau'n bersonol neu i gael eu hanfon ymlaen drwy'r post.

Anfonir canlyniadau TAG UG/Safon Uwch, Project Estynedig, Celf a Dylunio Sylfaen, Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru (Uwch), Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Cymru) a Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Galwedigaethol yn awtomatig gan CBAC i'r gwasanaethau derbyn Prifysgolion a Cholegau (UCAS). Dylai ymgeiswyr preifat sydd wedi cwblhau'r holl unedau angenrheidiol ond heb eu cofrestru am ddyfarniad cymhwyster gysylltu â'r Swyddog Arholiadau. Gall yr unigolyn hwn wedyn eich cofrestru am y dyfarniad cyn y dyddiad cau sef 20 Medi (cyfres arholiadau Mehefin). Rhaid i ymgeiswyr preifat sydd am wneud cais am ddyfarniad pwnc hwyr gyfeirio unrhyw ymholiad i'w canolfan, nid i CBAC.

Bydd tystysgrifau'n cael eu dosbarthu i'r ganolfan, o fewn 10 wythnos i gyhoeddi'r canlyniadau fel arfer. Bydd y ganolfan yn rhoi gwybod pan fyddant ar gael. Noder na fyddwch yn derbyn tystysgrif os nad ydych wedi cofrestru am ddyfarniad cymhwyster pwnc neu os ydych wedi derbyn gradd Annosbarthedig (U).

Mae canllawiau i ganlyniadau a ffiniau graddau i'w gweld ar ein gwefannau (https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/canlyniadau-a-ffiniau-graddau/#tab_0 / https://www.edugas.co.uk/home/administration/results/#tab_0)

11. GWASANAETHAU AR ÔL Y CANLYNIADAU

Os bydd gan ymgeiswyr preifat unrhyw bryderon am eu canlyniadau arholiadau a'u bod am ofyn am ailwiriad clerdyddol, adolygiad o'r marcio, adolygiad o'r cymedroli, neu am wneud cais i gael eu sgriptiau arholiad yn ôl, dylent gysylltu â'r ganolfan gofrestru am gyngor yn y lle cyntaf.

Gall ymgeiswyr preifat gyflwyno cais yn uniongyrchol i CBAC hefyd drwy e-bostio prs@wjec.co.uk. Cofiwch gynnwys enw a rhif eich canolfan, a'ch rhif ymgeisydd.

Dylid gwneud ceisiadau am y gwasanaethau hyn cyn gynted ag y bo modd. Mae gwefan CBAC yn dangos y terfynau amser ar gyfer derbyn ceisiadau sy'n berthnasol i'r gyfres arholiadau gyfredol – https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/canlyniadau-a-ffiniau-graddau/#tab_1 yn y ddogfen Ffioedd a Therfynau Amser Gwasanaethau Ar ôl y Canlyniadau.

Ni dderbynnir ceisiadau sy'n cyrraedd ar ôl y terfynau amser hyn. Mae'r [wefan](#) hefyd yn cynnwys gwybodaeth bellach a manylion cysylltu am y gwasanaethau ar ôl y canlyniadau.

Os yw ymgeiswyr preifat o'r farn bod gwall o hyd ar ôl derbyn canlyniad y gwasanaeth ar ôl y canlyniadau, gallan nhw gyflwyno cais am apêl. Hoffem argymhell eu bod yn ceisio cyngor ac arweiniad gan y ganolfan gofrestru ynglŷn â'u cais am apêl. Fel arall, gall ymgeiswyr preifat apelio'n uniongyrchol at CBAC drwy anfon e-bost at appeals@wjec.co.uk Mae gwybodaeth am y broses apelio, gan gynnwys amserlenni a ffioedd, ar gael yn <https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/canlyniadau-ffiniau-graddau-a-gwasanaethau-ar-ol->

[y-canlyniadau/#tab_1](https://www.jcq.org.uk/y-canlyniadau/#tab_1) Mae gwybodaeth am sut i gyflwyno cais am apêl ar gael yn <https://www.jcq.org.uk/>

12. HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Mae CBAC yn prosesu data personol yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Gallwch weld ein hysbysiad preifatrwydd [yma](#).